

PENDERFYNIAD CYNGOR GWYNEDD I 'YSTYRIED BWRIADOLDEB'

HYSBYSEBIAD I BOBL SYDD YN GOFYN I'R CYNGOR AM GYMORTH PAN YN DDIGARTREF NEU DAN FYGYTHIAD O FOD YN DDIGARTREF.

Mae'r hysbysiad hwn yn eich hysbysebu o Ddydd Gwener y 10fed o Orffennaf 2015 bydd Cyngor Gwynedd yn defnyddio'r 'prawf bwriadoldeb'.

Daeth deddfwriaeth Tai newydd i rym ar **Ddydd Llun 27ain o Ebrill 2015**. Mae hyn yn newid y gyfraith yn sylweddol sut mae awdurdodau tai lleol yn delio a phobl ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae'r newid sylweddol yn ymwneud a phobl yr ystyria'r awdurdod lleol iddynt wneud eu hunain yn ddigartref yn fwriadol, yn dilyn archwilio'r ffeithiau.

Mae Adran 78(2) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn darparu na chaiff awdurdod tai lleol roi sylw i ba un a yw ymgeiswyr wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio oni bai ei fod wedi penderfynu rhoi sylw i un neu ragor o'r categorïau o ymgeiswyr a bennwyd yn y rheoliadau [Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb)(Categoriâu Penodedig) (Cymru) 2015.

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu i barhau i rhoi sylw i fwriadoldeb (hynny yw, rhoi sylw i ba un a yw ymgeiswyr wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio) ar gyfer categorïau penodedig o ymgeiswyr fel y nodir isod:

- Menyw feichiog neu berson y mae'n preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddi breswyllo gydag ef;
- Person y mae plenty dibynnol yn preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;
- Person sy'n hyglwyf o ganlyniad i reswm arbennig (er engraifft: henaint, salwch corfforol neu feddylol neu anabledd corfforol neu feddylol), neu y mae person sy'n dod o fewn y category yma yn preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;
- Person sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad i argyfwng megis llifogydd, tan neu drychineb arall, neu y mae person sy'n dod o fewn is y category yma yn preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;
- Person sy'n ddigartref o ganlyniad i wynebu camdriniaeth ddomestig, neu y mae person sy'n dod o fewn y category yma yn preswyllo gydag ef (ac eithrio'r sawl sy'n cam-drin) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;
- Person sy'n 16 neu'n 17 pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu Gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, neu y mae person sy'n dod o fewn y category yma yn preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;

- Person sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, sy'n wynebu perygl arbennig o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, neu y mae person sy'n dod o fewn y category yma yn preswyllo gydag ef (ac eithrio camfanteisiwr neu gamfanteisiwr posibl) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;
- Person sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu ar unrhyw bryd pan oedd o dan 18 oed, neu y mae'r person sy'n dod o fewn y categori yma yn preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;
- Person sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y Goron sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y lluoedd hynny, neu y mae person sy'n dod o fewn y categori yma yn preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;
- Person sydd â chysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol ac sy'n hyglwylf o ganlyniad i un o'r rhesymau canlynol -
 - Bod wedi bwrw dedfryd o garchar o fewn ystyr adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000,
 - Bod wedi ei remandio mewn carchar neu ei draddodi i garchar gan orchymyn llys, neu
 - Bod wedi ei remandio i lety cadw ieuencid o dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012, neu berson y mae person o'r fath yn preswyllo gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef;

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb ar gyfer pob un o'r categorïau penodedig uchod fel bod dim newid mwn perthynas a bwriadoldeb tra mae'r dyletswyddau newydd eraill ar awdurdodau lleol, daeth i rym ar 27 Ebrill 2015, wedi cael eu sefydlu yn y gwasanaeth.

Bydd yr hysbysiad yma yn sefyll nes bydd Cyngor Gwynedd yn ei adolygu neu y bydd Gweinidogion Cymru yn newid y rheoliadau.

OS AM WYBODAETH BELLACH YNGLŶN Â'R HYSBYSIAD HWN, GOFYNNWCH AM SIARAD Â'R SWYDDOG OPSIYNAU/DIGARTREFEDD. Cysylltwch â rhif 01766 771000 neu e-bostiwch Tai@gwynedd.gov.uk